# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| |
|---|
| **Pwyllgor:** Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** 9 Mawrth 2012 |
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol Perthnasol:** Lynn Ball |
| **Comisiynydd Perthnasol:** Mick Gianassi |

## **Pennawd yr Adroddiad:** Cais i eitem gael ei hystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Paratowyd yr adroddiad hwn i hysbysu Aelodau'r Pwyllgor bod y Cadeirydd wedi derbyn 2 gais ar wahân i eitem gael ei hystyried ar gyfer sgriwtini.

1.2 Mae'r ceisiadau, sydd ynghlwm wrth y ddogfen hon, yn ymwneud a'r cyllidebau arfaethedig a'r toriadau yn y gwasanaeth a gyflwynwyd gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru yn y drefn honno.

**2.0 Cefndir**

2.1 Yn ystod y Cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2012, cafodd yr Aelodau adroddiadau llafar gan y Cynghorydd Peter Rogers a'r Cynghorydd Aled Morris Jones ynghylch cyfarfodydd Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru (AHGC) a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn y drefn honno. Mewn perthynas â'r olaf, dywedodd y Cynghorydd bod yr adroddiad llafar a roddodd wedi cael ei baratoi gan swyddogion yr Awdurdod Tân a'i fod bob amser yn ceisio rhoddi i'r Cyngor y diweddaraf ynghylch gweithredoedd GTAGC. Ers hyn, mae o wedi anfon ei gyflwyniad i'r Uned Sgriwtini er gwybodaeth.

2.2 Yn dilyn y trafodaethau yn y Cyngor, awgrymwyd y byddai o fudd petai'r ddau Awdurdod yn dod gerbron y Pwyllgorau Sgriwtini i roi manylion pellach am y toriadau i'w cyllidebau a goblygiadau posibl hynny ar staff ac ar y gwasanaeth.

2.3 Ers hynny, mae Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi derbyn dwy ffurflen Sgriwtini yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried y pwnc hwn. O ganlyniad, mae Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Rheolydd Sgriwtini wedi cwblhau'r Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini (gweler Atodiad 1).

## 3.0 Materion ar gyfer Sgriwtini

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a ydyw, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd yn yr atodiadau, yn cefnogi barn y Cadeirydd a'r Rheolydd Sgriwtini y gallai'r materion hyn gael effaith sylweddol ar grŵp o etholwyr Ynys Môn ac o'r herwydd, bod hynny'n cyfiawnhau sylw gan Sgriwtini. Os yw'r Pwyllgor yn cydsynio gyda'r farn hon a fyddent, fel awgrym ar gyfer y cam cyntaf, yn fodlon hefyd caniatáu i'r Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini ymgynghori gydag Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gyda golwg ar ofyn iddynt ddyfod gerbron y pwyllgor hwn i wneud cyflwyniad ar y toriadau y maent yn eu hargymell i'r gyllideb.

3.2 Dylai'r Pwyllgor nodi ei fod yn rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor Sgriwtini Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol i ystyried penderfyniadau a wneir neu gamau gweithredu a gymerir o ran awdurdodau cyfrifol yn cyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â throsedd ac anrhefn. O'r herwydd, gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a ydyw, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ynghlwm yn yr atodiadau, yn fodlon caniatáu i'r Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini ymgynghori gydag Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru gyda golwg ar ofyn iddynt wneud cyflwyniad i'r Pwyllgor Sgriwtini yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol ar y toriadau arfaethedig i'r gyllideb.

***Y Cynghorydd Selwyn Williams***
***Cadeirydd***
***Prif Bwyllgor Sgriwtini***

*13 Mawrth 2012*

---

## Atodiadau

Atodiad 1: Cais gan Aelodau i eitem gael ei hystyried ar gyfer Trosolwg a Sgriwtini – *Toriadau yn y Gwasanaeth Tân* (John Chorlton, dyddiedig 12 Mawrth 2012)

Atodiad 2: Cais gan Aelodau i eitem gael ei hystyried ar gyfer Trosolwg a Sgriwtini - *Sgriwtineiddio Toriadau yng Nghyllideb a Gwasanaeth yr Awdurdod Tân a'r Heddlu* (Bob Parry, dyddiedig 12 Mawrth)

Atodiad 3: Templed Prawf Arwyddocâd Sgriwtini - cwblhawyd gan Gadeirydd y Prif Bwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Rheolydd Sgriwtini ar 13 Mawrth 2012

## Penderfyniad Perthnasol a wnaed eisoes gan y Cyngor neu'r Pwyllgor Gwaith neu'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol

Gwnaed penderfyniad gan y Cyngor llawn ar 6 Mawrth 2012

**Papurau Cefndir**

- Cofnodion Cyfarfod Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru 17 Chwefror 2012
- Cynllun Ariannol Tymor Canol AHGC 2012-13 i 2015-16, fel y cafodd ei gyflwyno i gyfarfod AHGC ar 17 Chwefror 2012
- Adroddiad gan y Prif Gwnstabl ar Gynlluniau ar gyfer Cyllideb 2012-13, fel y cafodd ei gyflwyno i gyfarfod AHGC ar 17 Chwefror 2012
- Atodiad i'r Cynllun Ariannol Tymor Canol a gyflawnwyd i'r Awdurdod Heddlu ar 17 Chwefror 2012, fel y cafodd ei gyflwyno gan y Trysorydd i AHGC ar 9 Mawrth 2012
- Cyllideb Ddrafft i GTAGC 2012-13, fel y cafodd ei chyflwyno i GTAGC ar 19 Rhagfyr 2011
- Cyllideb Refeniw 2012/13 a'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r arbedion angenrheidiol, fel y cawsant eu cyflwyno i GTAGC ar 6 Chwefror 2012

**Swyddog Cyswllt:**

*Carl Thomas*
*Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini*
*Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau*

# CAIS GAN AELODAU I EITEM GAEL EI HYSTYRIED AR GYFER TROSOLWG A SGRIWTINI

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Pwnc a awgrymir:**..........................................................................................

| | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor Cyfrifol:** | Corfforaethol | ☑ |
| (*Ticiwch un*) | Tai a Gwas. Cym. | ☐ |
| | Addysg a Hamdden | ☐ |
| | Gwas. Amgylcheddol a Thechnegol | ☐ |
| | Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo | ☐ |

Pam ydych chi'n meddwl bod hwn yn bwnc da ar gyfer trosolwg a sgriwtini?

**Câi hyn effaith ddifrifol ar ddiogelwch a lles Trigolion Ynys Môn.**

..........................................................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................................................

A ydych eisoes wedi trafod eich pryderon gyda'r swyddog gwasanaeth priodol? Dywedwch os gwelwch yn dda gyda phwy y buoch yn siarad a phryd. **Heb y wybodaeth hon, ni fedrir symud ymlaen gyda'r awgrym**

**Mr Byron Davies (Comisiynydd), Mr Richard Parry Jones (Prif Weithredwr)**

..........................................................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................................................

Nodwch unrhyw wybodaeth gefndirol sy'n berthnasol i'ch cais os gwelwch yn dda

**Bwriad y Gwasanaeth yw gostwng nifer y staff ar y pympiau gan 22/36 a gallai hyn gael effaith ddifrifol ar eu gallu i fynd allan i ddigwyddiadau**

..........................................................................................................................................................................................................

**Enw (printiwch os gwelwch yn dda**) W J Chorlton ............................................................................. **Dyddiad**. 12/3/ ..........................................................................................................

*Caiff eich awgrym ei gydnabod o fewn 10 niwrnod gwaith o'i dderbyn a chewch wybod pa pryd y bydd yn cael ei drafod gan Gadeirydd y Pwyllgor. Cynigir i chi'r cyfle i siarad gyda'r Pwyllgor i hyrwyddo eich pwnc.*

**DYCHWELWCH Y FFURFLEN HON OS GWELWCH YN DDA AT:**

Rheolydd Sgriwtini, Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni, LL77 7TW

Ffacs: 01248 750839

# CAIS GAN AELODAU I EITEM GAEL EI HYSTYRIED AR GYFER TROSOLWG A SGRIWTINI

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Pwnc a awgrymir:**...........................................................................................

**Pwyllgor Cyfrifol:** (*Ticiwch un*)

| | | |
|---|---|---|
| Corfforaethol | ☑ |
| Tai a Gwas. Cym. | ☐ |
| Addysg a Hamdden | ☐ |
| Gwas. Amgylcheddol a Thechnegol | ☐ |
| Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo | ☐ |

Pam ydych chi'n meddwl bod hwn yn bwnc da ar gyfer trosolwg a sgriwtini?

**Penderfyniad yr Awdurdod Tân a'r Heddlu i godi eu praesept (cyllideb) a lleihau nifer y gweithwyr. Effaith ar y gwasanaeth i etholwyr.**

..........................................................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................................................

A ydych eisoes wedi trafod eich pryderon gyda'r swyddog gwasanaeth priodol? Dywedwch os gwelwch yn dda gyda phwy y buoch yn siarad a phryd. **<u>Heb y wybodaeth hon, ni fedrir symud ymlaen gyda'r awgrym</u>**

**Penderfyniad y Cyngor ar 6/3/12 i sgriwtineiddio'r ddau wasanaeth**

..........................................................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................................................

Nodwch unrhyw wybodaeth gefndirol sy'n berthnasol i'ch cais os gwelwch yn dda

**Cael mwy o wybodaeth gan gynrychiolwyr y Cyngor ar y ddau wasanaeth**

..........................................................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................................................

**Enw (printiwch os gwelwch yn dda**) Bob Parry ........................................................................ **Dyddiad** 12/3
.............................................................................................

*Caiff eich awgrym ei gydnabod o fewn 10 niwrnod gwaith o'i dderbyn a chewch wybod pa pryd y bydd yn cael ei drafod gan Gadeirydd y Pwyllgor. Cynigir i chi'r cyfle i siarad gyda'r Pwyllgor i hyrwyddo eich pwnc.*

**DYCHWELWCH Y FFURFLEN HON OS GWELWCH YN DDA AT:**
Rheolydd Sgriwtini, Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni, LL77 7TW
Ffacs: 01248 750839

# TEMPLED PRAWF ARWYDDOCÂD SGRIWTINI

( Rheolwr Sgriwtini i benderfynu pa focs)

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

SGRIWTINI

**PWYLLGOR CYFRIFOL:**

- CORFFORAETHOL ☑
- TAI A GWAS. CYM. ☐
- ADDYSG A HAMDDEN ☐
- GWAS. AMGYLCHEDDOL A THECHNEGOL ☐
- ECONOMAIDD, TWRISTIAETH AC EIDDO ☐

| [ Gweddill y ffurflen i'w chwblhau gan y Rheolwr Sgriwtini a Chadeirydd( ion) perthnasol ] | SYLWADAU (YN CYNNWYS TYSTIOLAETH LLE MAE HYNNY'N BRIODOL) |
|---|---|
| **SUT, LLE A PHAM CAFODD Y MATER EI NODI?** | TRAFODWYD Y MATER YN Y CYNGOR LLAWN – ADRODDIAD LLAFAR GAN Y CYNG ALED MORRIS JONES AR Y GWASANAETH TÂN. GOFYNNODD Y CYNG CHORLTON I'R PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL EDRYCH AR Y TORIADAU ARFAETHEDIG YN Y GWASANAETH TÂN AC EFFAITH HYNNY AR WASANAETHAU A GWNAETH Y CYNG BOB PARRY GAIS TEBYG O RAN YR AWDURDOD HEDDLU. |
| **A YW'R PWNC YN CAEL EI NODI YN Y BROSES ASESU RISG?**<br>**RISG HEB EI NODI?** | CYRFF ALLANOL YW'R RHAIN AC O'R HERWYDD, MAE'N BOSIBL NAD YDYNT WEDI EU CYNNWYS YNG NGHOFRESTR RISG YR AWDURDOD EI HUN. WEDI DWEUD HYNNY, MAE YNA RISG AMLWG I DDIOGELWCH Y CYHOEDD PETAI LEFELAU STAFFIO'N CAEL EU GOSTWNG. |
| **BETH YW'R FFOCWS A'R AMCANION SGRIWTINI?** | **GWASANAETH TÂN**: '**:** 'The intention of the service is to reduce the manning of the pumps by 22 / 36 Members of staff, which could have a serious effect on their (i.e. the fire Authority) to turn out'.<br>**HEDDLU**: 'reduction in manpower' ac 'effect on service to the electorate. |
| **A YW'R MAES WRTHI'N CAEL EI ADOLYGU, AM GAEL EI ADOLYGU NEU WEDI CAEL SYLW MEWN MAN ARALL?** | NID YW'R MATER HWN WRTHI'N CAEL EI ADOLYGU YN YR AWDURDOD OND MAE AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU WEDI CYNNAL ADOLYGIAD MEWN PERTHYNAS Â'U GWASANAETH NHW. |
| **A OES UNRHYW BROBLEMAU GYDA PHERFFORMIAD GWAN NEU WAEL YN Y MAES HWN?** | DIM YN HYSBYS |
| **A YW PERFFORMIAD YN DEBYGOL O WELLA YN SGIL SGRIWTINI?** | ANNHEBYGOL OND NID MATER O BERFFORMIAD GWAEL SY'N CAEL EI DRAFOD YMA |
| **A YW CYMUNEDAU LLEOL O'R FARN BOD Y MATERION YN RHAI PWYSIG?** | YDYNT – GALL LLEIHAU NIFER STAFF Y GWASANAETH TÂN A'R HEDDLU GAEL GOBLYGIADAU O RAN DIOGELWCH I'R CYHOEDD YN GYFFREDINOL |
| **A OES TYSTIOLAETH O ANFODLONRWYDD YMYSG Y CYHOEDD?** | BU ERTHYGLAU YN Y CYFRYNGAU LLEOL YNGLŶN Â'R MATERION HYN |
| **EFFAITH AR ARWEINYDDIAETH GYMUNEDOL?** | |
| **A YW'R PWNC WEDI CAEL EI ADOLYGU'N FEWNOL?** | DIM YN HYSBYS |
| **A YW'R PWNC WEDI CAEL EI NODI GAN AROLYGWYR/ARCHWILWYR ALLANOL?** | NA |
| **A YW'R MATER YN FAES BLAENORIAETH I LYWODRAETH GANOLOG/LLYWODRAETH LEOL?** | DIM YN UNIONGYRCHOL |

**SYLWER:** **GALL RHAI RHESYMAU AM WRTHOD PWNC GYNNWYS:**

- **NID YW YMWNEUD TROSOLWG A SGRIWTINI Â'R MATER YN DEBYGOL O ARWAIN AT WELLA'R GWASANAETH**
- **MAE'R PWNC EISOES YN CAEL EI DRAFOD MEWN RHAN ARALL O'R CYNGOR**
- **MAE DEDDFWRIAETH NEU ARWEINIAD NEWYDD AR Y GWEILL**
- **MAE ADOLYGIAD O'R PWNC YN AFREALISTIG**